
### Un yn fwy, un yn llai



Bydd angen dis, darn arian a blociau neu friciau Lego ar gyfer y gêm hon.

- Cymerwch dro i rolio’r dis.
- Adeiladwch dwr gyda’r nifer hwnnw o friciau.
- Yna taflwch y darn arian. Mae gwlybyn (heads) yn golygu tynnu un bric. Mae sychyn (tails) yn golygu adio un bric.
- Os gallwch ddyfalu sawl bric sydd wedyn, gallwch eu cadw!

Y cyntaf i gasglu 20 bric neu fwy sy’n ennill!

### Cyfrif

Beth am ymarfer cyfrif? Dechreuwch gyda 5, a chyfrif ymlaen i 11.
Dechreuwch gyda 9, a chyfrif yn ôl i sero.
Dewiswch rif gwahanol i ddechrau bob tro.


### Maths o’r Cwpwrdd

Gofynnwch i’ch plentyn eich helpu i drefnu’r cwpwrdd, gan roi’r pethau **trymaf** ar y silff isaf a’r pethau **ysgafnaf** ar y silff uchaf.




# Targedau i ddisgyblion yn y Dosbarth Derbyn

Ysgol Gymraeg Parc y Tywyn




## Llyfryn i rieni

Rhoi help llaw gyda mathemateg eich plentyn

# Targedau - Derbyn 3

**Erbyn diwedd y flwyddyn hon, bydd y rhan fwyaf o blant yn gallu …**

☐ Dweud un, dau, tri, pedwar … hyd at ddau ddeg.

☐ Cyfrif hyd at 10 eitem.

☐ Adnabod y rhifau ysgrifenedig 1, 2, 3, 4… hyd at 9.

☐ Defnyddio geiriau fel *mwy, llai, trymach, ysgafnach* i gymharu pethau.

☐ Dod o hyd i 1 yn fwy neu 1 yn llai nag unrhyw rif o 1 i 10.

☐ Adio dau grÝp bach o bethau (cyfanswm 10 neu lai).

☐ Cyfrif sawl un sydd ar ôl pan fydd rhai pethau'n cael eu tynnu

☐ Gwneud patrymau syml a siarad amdanynt.

☐ Enwi siapiau fel *cylch, sgwâr, triongl, petryal, ciwb, côn* a *sffêr***.**

☐ Defnyddio geiriau fel *dros, o dan, uwchben, islaw, ar, yn, nesaf at, yn ymyl* i ddisgrifio ble mae pethau.

## Y targedau

Mae'r targedau hyn yn dangos rhai o'r pethau y dylai eich plentyn allu eu gwneud erbyn diwedd y flwyddyn Dderbyn.

Mae rhai o'r targedau yn fwy anodd mewn gwirionedd e.e efallai y bydd plant sy'n gallu cyfrif i 20 yn dal i gael trafferth i ddweud pa rif sy'n dod ar ôl 15. Efallai y bydd yn rhaid iddynt gychwyn ar 1 a chyfrif ymlaen.
Ac mae cyfrif pethau na allwch eu gweld yn gallu bob yn eitha' anodd!

## Gweithgareddau hwyl i'w gwneud gartref


### Casglu

Bydd angen pethau i'w casglu, e.e. siapiau gludiog, ffa sych.

- Yn ei dro, bydd un chwaraewr yn clapio 1, 2, 3, neu 4 gwaith tra bo'r chwaraewr arall yn cau ei lygaid ac yn gwrando .
- Sawl clap glywsoch chi? Cymerwch y nifer hynny o siapiau.
- Y cyntaf i wneud patrwm gyda 12 siâp gludiog sy'n ennill.

### Beth yw'r gwahaniaeth?

Tynnwch lun o chwe smotyn lliw mawr mewn rhes.



- Yn ei dro, mae un chwaraewr yn cau ei lygaid.
- Mae'r chwaraewr arall yn cuddio rhai o'r smotiau gyda darn o bapur.
- Mae'r chwaraewr cyntaf yn edrych ac yn dweud sawl smotyn sydd wedi eu cuddio.
- Rhowch gynnig ar rif arall, e.e. pump neu saith.